# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL**
**Yn y Ganolfan am 19.00 nos Fawrth Tachwedd 26 2024**

**COFNODION**

**C.1.11.24** **Presennol :- Cynghorwyr :-** Gwilym Jones; Carol Hayes; Aled Griffith ( Cadeirydd); Alwyn Gruffydd; Glenda Murray
Marian Roberts ( Clerc)
**Absennol :- Cynghorwyr :-** Trefor Jones; Llywelyn Rhys

**C2.11.24** **Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :-** Dr Melfyn Edwards; John Gwynedd Roberts; Michael Roberts; Karena Owens

**C3.11.24** **Archwilio'r cyfrifon. (** Mantolen hyd at Dachwedd 19 2024 ynghlwm).
Cafwyd y Fantolen yn gywir ac eglurodd y Clerc sut oedd y ffigyrau ar y daenlen Excel yn cael eu trosglwyddo i'r Fantolen. Roedd y Clerc wedi paratoi tablau a graffiau i ddangos cymhariaeth gwariant rhwng 31.3.24 a 19.11.24 ac amcangyfrif o wariant posibl hyd at 31.3.25. Eglurodd y Clerc fod gwariant hyd at 19.11.24 mor uchel oherwydd bod nifer o daliadau o gyllideb 2023-2024 wedi cael eu cario drosodd i gyllideb 2024-2025; fod codiad o 50% yn oriau gwaith y Clerc; fod y Cyfraniadau Ariannol sydd yn arfer cael eu rhannu ym mis Chwefror bob blwyddyn heb gael eu rhannu tan fis Ebrill 2024.

**C4.11.24** **Amcangyfrif gwariant hyd at 31.3.25** ( copi ymghlwm) a phenderfynu ar flaenoriaethau 2025-26
Gweler sylwadau C3.11.24. Cytunwyd y bydd yn rhaid codi'r Praesept er mwyn ateb gofynion ariannol 2025-2026.

**C5.11.24** **Dechrau trafodaeth am braesept 2025/2026**. (Gweler dogfennau a Thabl Praesept ynghlwm)
Nid oedd y Clerc wedi derbyn y ddogfennaeth berthnasol i ddechrau trafod y Praesept gan nad oedd Cyngor Gwynedd wedi darparu eu cyllideb ar gyfer 2025-2026. Bydd yn rhaid felly parhau gyda'r trafodaethau yng nghyfarfod y Pwyllgor Llawn ar 10.12.24. Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi codi'r Praesept yllynedd am y tro cyntaf ers 4 blynedd . Rhagwelir y bydd yn rhaid codi'r Praesept unwaith yn rhagor eleni. Bydd y Clerc wedi paratoi ymhellach er mwyn i'r aelodau ddod i benderfyniad yng nghyfarfod 10.12.24.

**C6.11.24** **Penderfynu ar hysbysebu cytundeb torri gwair 2025-26**
**Penderfynwyd :-** hysbysebu am dendr cytundeb torri gwair ar gyfer 3 blynedd yn Yr Wylan ac yn Y Ffynnon gan hysbysu y bydd National Grid yn dechrau cloddio Cae Chwarae Bodawen yn 2025 ar gyfer gosod y ceblau trydan tanddaearol.

**C7.11.24** **Penodi Archwiliwr Mewnol ar gyfer archwiliad 2024-2025**
**Penderfynwyd :-** gofyn i dîm archwilwyr Luned Fôn Jones, Cyngor Gwynedd, i ymgymryd â'r gwaith.

**C8.11.24 Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Glenda Murray, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | CLEAR COUNCILS | Ychwanegiad i'r primiwm yswiriant blynyddol i yswirio gwaith celf Howard Bowcott | x 3 = £21.38<br>x 1 arall = £17.72 |
| **2** | ALAN G JONES | Trwsio mainc lloches bws Aldi | £120.00 |
| **3** | ALAN G JONES | Tynnu polion fflag | £456.00 |

**C9.11.24 Ceisiadau Cynllunio**

**(A) Rhif Cais / Application No.: C24/0792/44/AM (wedi ebostio 12.11.24 )**

Lleoliad / Location: The Garage, Porthmadog, LL49 9DF

Bwriad / Proposal: Dymchwel modurdai presennol ac adeiladu tŷ 2/3 ystafell wely newydd ar wahân
Demolition of existing garages and construction of a new detached 2/3 bedroom townhouse

**Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 20.45

*Marian Roberts*

(Clerc)
28.11.24